# PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwllgor 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Iau, 24 Tachwedd 2016 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Raymond Bartley, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Arwel Roberts a Huw Williams

Mynychodd yr Aelodau Arweiniol, y Cynghr. Bobby Feeley a David Smith, ar gais y Pwyllgor.

**Arsylwr:** Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG), Rheolwr Gwasanaeth: Ardal y Gogledd (CCN), Rheolwr Tîm Cefnogi Pobl (KN), Rheolwr Gwasanaeth: Datblygu Strategol (GG), Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (EJ), Unigolyn Graddedig Corfforaethol (LW) Cydlynydd Archwilio (RE), a Gweinyddwyr Pwyllgorau (SLW ac SJ)

Gareth Evans, Cyfarwyddwr Prosiect, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
Stephanie O'Donnell, Rheolwr Prosiect, BIPBC

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Pete Prendergast a/ac Bill Tasker

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2016.

Materion yn Codi:-

Tudalen 9 – Eitem 5 – cadarnhaodd y Cydlynydd Archwilio bod y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio wedi gwahodd Comisiynydd yr Heddlu a

Throsedd i fynychu'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau ar 2 Chwefror 2017. Roedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi derbyn y gwahoddiad.

***PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.***

**5 YSBYTY CYMUNED GOGLEDD SIR DDINBYCH – PROSIECT CYFLEUSTER IECHYD**

Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Jeanette Chamberlain Jones, Gareth Evans, y Cyfarwyddwr Prosiect a Stephanie O'Donnell, y Rheolwr Prosiect, o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) i'r cyfarfod i roi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd hyd yma o ran datblygu cyfleuster iechyd/ysbyty cymuned ar gyfer ardal gogledd Sir Ddinbych, ar safle blaenorol Ysbyty Brenhinol Alexandra, y Rhyl.

Cafodd yr aelodau wybodaeth, drwy gyflwyniad PowerPoint, am hanes y prosiect a'r camau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u cymryd hyd yma i gyrraedd ei sefyllfa bresennol, sef gweithio ar gwblhau'r Achos Busnes Amlinellol (ABA) i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru (LlC) ddechrau 2017. Yn ystod y cyflwyniad, amlinellodd y cynrychiolwyr y model gwasanaeth arfaethedig fyddai'n cael ei ddatblygu ar y safle. Byddai'r model dan ystyriaeth yn canolbwyntio ar ofal brys ac undydd, gwasanaethau cleifion allanol ger cartrefi defnyddwyr y gwasanaeth a gwasanaethau iechyd meddwl a chorfforol integredig i bobl hŷn, a byddai'n cynnwys mynediad at wasanaethau atal i wella lles y trigolion lleol. Roedd y Gwasanaeth Iechyd yn bwriadu darparu'r gwasanaethau atal hyn mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol, y gymuned a sefydliadau trydydd sector.

Rhoddwyd manylion am gwmpas y gwasanaethau arfaethedig yn y cyfleuster newydd, fyddai'n cynnwys:

- Canolfan gofal undydd (gan gynnwys uned mân anafiadau (UMA) ac amrediad o wasanaethau i gefnogi gofal sylfaenol lleol);
- Clinigau cleifion allanol;
- Gwelyau cleifion mewnol;
- Unedau therapi ac asesu;
- Ystafelloedd therapi mewnwythiennol;
- Diagnosteg;
- Gwasanaethau therapi;
- Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol;
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS);
- Gwasanaethau Iechyd Rhywiol;
- Gwasanaeth Cleifion Allanol Iechyd Meddwl Pobl Hŷn;
-
- Canolbwynt Cymunedol (fyddai'n cynnwys caffi, mynediad at y sector gwirfoddol, ystafelloedd cyfarfod ac ati).

Dangoswyd map o'r awyr o'r safle (y Campws) i'r aelodau ynghyd â chynlluniau llawr arfaethedig pob un o dri llawr yr adeilad newydd, fyddai wedi'i leoli ar safle'r adeilad Ward Glantraeth presennol. Disgwylir i'r amrediad o wasanaethau fyddai ar

gael yn y cyfleuster newydd, ynghyd â'r ymagwedd ragweithiol tuag at ddarparu'r gwasanaethau ymyrraeth:

- leihau'r effaith ar Uned Damweiniau ac Achosion Brys (A&E) Ysbyty Glan Clwyd;
- lleihau'r straen ar wardiau yn Ysbyty Glan Clwyd ac ysbytai cymuned yr ardal ehangach, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys trigolion ardal arfordirol Sir Ddinbych cyn eu rhyddhau;
- creu gwasanaeth undydd cynaliadwy fyddai'n lleihau'r galw yn lleol am ofal sylfaenol;
- gwella'r modd y mae anghenion iechyd a lles yn cael eu hunan reoli trwy addysg, gwybodaeth a gwasanaethau atal, ar y cyd â'r awdurdod lleol a darparwyr trydydd sector;
- 
- cwtogi cyfnodau hir yn yr ysbyty i gleifion mewnol trwy adsefydlu, e.e. datblygu hyder y claf o ran cyflawni tasgau dydd i ddydd;
- darparu amrediad o wasanaethau i gleifion allanol mor lleol ag y bo modd a lleihau'r angen i gleifion allanol deithio ymhellach i gael apwyntiadau ac ati;
- gwneud y defnydd gorau o adnoddau gwerthfawr trwy ymgyfuno timau amlasiantaeth ac ati; a
- gwella cyfraddau recriwtio a chadw staff trwy'r ffaith y byddent wedi'u lleoli mewn cyfleuster modern, newydd sy'n darparu gwasanaethau iechyd arloesol.

Dyma ymateb cynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd i gwestiynau'r aelodau:

- hysbyswyd mai trydydd cam y broses, sef y cam terfynol, ar ôl i LlC gymeradwyo'r ABA, fyddai mynd ati i ddatblygu'r Achos Busnes Llawn (Abl) a chyflawni'r prosiect;
- cadarnhawyd bod pob partner wedi ymrwymo i gyflawni'r prosiect;
- hysbyswyd y byddai'r cyfleuster yn cynnwys darpariaeth ar gyfer uned â 28 gwely i gleifion mewnol (fydd yn cynnwys 22 ystafell sengl gydag ystafell ymolchi gysylltiedig, a 6 gwely arhosiad byrrach er dibenion ail-alluogi/asesu);
- eglurwyd y byddai canolfan ragoriaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Deintyddol Cymunedol i Gonwy a Sir Ddinbych yn cael ei datblygu ar y safle fel rhan o'r prosiect. Ond ni fydd y cyfleuster Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol yn cynnwys Gwasanaeth Orthodontig;
- cadarnhawyd y bydd y Gwasanaeth UPM yn cael ei leoli ar y campws;
- hysbyswyd eu bod wrthi ar hyn o bryd yn archwilio posibilrwydd dad-fabwysiadu Alexandra Road, gyda'r nod o ymgorffori'r ffordd fel rhan o'r campws;
- cadarnhawyd mai bwriad Bwrdd y Prosiect yw cyflwyno'r ABA i'r Bwrdd Iechyd yn ei gyfarfod ar 8 Rhagfyr 2016. Yna, byddai BIPBC yn cyflwyno'r ABA i LlC ei gymeradwyo yn ystod mis Ionawr 2017. Disgwylir i LlC gymryd 10 i 12 wythnos i graffu ar yr ABA. Ar ôl cael cymeradwyaeth, byddai BIPBC yn mynd ymlaen at gam yr Achos Busnes Llawn (Abl), fyddai eto'n cymryd tua 10 i 12 wythnos arall. Pe gellid cymeradwyo'r Abl yn ystod haf 2017 a rhoi caniatâd cynllunio (y mae Ymgynghorydd Cynllunio wrthi'n gweithio arno gydag Adran Gynllunio Sir Ddinbych), y gobaith yw y byddai'r gwaith yn

cychwyn ar y safle yn gynnar yn 2018 gyda’r nod o gychwyn darparu gwasanaethau o’r cyfleuster newydd ddechrau 2020;

- cadarnhawyd y byddai Uned Mân Anafiadau (UMA) yn y cyfleuster fel rhan o wasanaeth Canolfan Gofal Undydd fwy, fyddai’n darparu amrediad llawer ehangach o wasanaethau na dim ond mân anafiadau, gyda'r nod o gefnogi darpariaeth gofal sylfaenol ardal gogledd Sir Ddinbych;
- hysbyswyd bod yr iard ganolog agored a ddangosir yn y cynlluniau yn rhwymedigaeth bensaernïol i ofynion golau naturiol adeilad o'r maint a gynigir yn y cynlluniau;
- cydnabuwyd nad oedd y prosiect wedi gwneud cynnydd yn y blynyddoedd diweddar, a’r rheswm am hynny oedd cyfyngiadau strwythurol adeilad blaenorol Ysbyty Brenhinol Alexandra am ei fod yn adeilad rhestredig, ac yn fwy diweddar, oherwydd ymarfer ailstrwythuro mewnol gyda Bwrdd BIPBC.
  Er hynny, mae camau sylweddol wedi’u cymryd yn y misoedd diwethaf. Yn ôl Rheolwr y Prosiect a Chyfarwyddwr Corfforaethol y Cyngor: Mae cymunedau wedi dylanwadu’n fawr ar gynnydd y prosiect yn ddiweddar;
- cadarnhawyd y byddai darparu gwelyau ail-alluogi/asesu yn y cyfleuster newydd yn lleddfu’r broblem o brinder gwelyau yn Ysbyty Glan Clwyd.
  Mae BIPBC wrthi’n ymchwilio i broses newydd ar sut i wella a chyflymu’r broses o sicrhau ‘rhyddhau diogel’;
- hysbyswyd yr ystyrir bod uned cleifion mewnol 28 gwely yn ddigonol i ateb y galw yn y dyfodol am wasanaethau cleifion mewnol, ar sail niferoedd poblogaeth presennol, rhagfynegiadau poblogaeth y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), data twf poblogaeth disgwyliedig cydnabyddedig a’r agenda ail-alluogi;
- eglurwyd y bydd yna le yn yr uned ailalluogi/asesu 6 gwely i ofalwyr aros gyda’r claf – mae hyn yn cydymffurfio â'r athroniaeth ailalluogi sy’n dod i’r amlwg, sy’n dadlau dros y rhan bwysig y mae gofalwyr yn ei chwarae yn y broses ailalluogi;
- cadarnhawyd bod trafodaethau eisoes wedi’u cynnal gyda’r Grŵp Strategaeth Gofalwyr o ran manteision galluogi gofalwyr/aelodau teulu i aros yn yr ysbyty gyda phobl sy'n dioddef o ddementia, yn unol â nodau ‘John’s Campaign’;
- cadarnhawyd yr ariannwyd y Gwasanaeth UPM bron yn gyfan gwbl gan arian y Gronfa Gofal Canolraddol (CGC) a roddwyd gan LlC er diben darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig gyda’r nod o gefnogi unigolion i barhau’n annibynnol cyhyd ag y bo modd;
- cadarnhawyd bod dyletswydd statudol ar y Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, a’u ‘bod yn gwneud hynny lle bynnag y bo modd. Bu i’r Bwrdd gydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaethau yn eu hiaith gyntaf i les cleifion â dementia;
- hysbyswyd bod meddygfeydd teulu yn y Rhyl, Llanelwy a meddygfeydd eraill yn yr ardal, ynghyd â chyfleuster Prestatyn a Rhuddlan Iach, eisoes yn ymgysylltu â’r Bwrdd Iechyd mewn perthynas â datblygiad y campws. Byddai disgwyl i’r meddygfeydd teulu hyn weld eu cleifion yng nghyfleuster yr ysbyty maes o law, a defnyddio’r cyfleuster er dibenion camu i fyny/camu i lawr;
- hysbyswyd, gan fod rhai cleifion o ardal y Rhyl yn cael eu derbyn ar hyn o bryd i Ysbyty Dinbych, y rhagwelir y byddai agor yr uned gwelyau i gleifion mewnol newydd yn lleihau’r pwysau ar yr ysbyty hwnnw. Fodd bynnag, gan

fod gan Ysbyty Dinbych welyau resbiradol arbenigol, byddai rhai cleifion o ardal y Rhyl yn dal i gael eu derbyn yno;

- eglurwyd, er y bydd gwasanaethau offthalmoleg cymunedol ar gael ar y campws, y byddai'r prif wasanaeth ysbyty llygaid yn aros yn Ysbyty Abergele; ac
- eglurwyd y byddai pob adeilad dros dro presennol ar safle Ysbyty Brenhinol Alexandra yn cael eu dymchwel a'u clirio i wneud lle ar gyfer maes parcio ychwanegol ar y safle. Byddai cludiant cyhoeddus i'r safle hefyd yn llunio rhan o waith datblygu gwasanaethau'r prosiect, yn ogystal â chynllunio'r gweithlu ar gyfer y cyfleuster. Bydd strategaeth y gweithlu'n cael ei ddarparu a gwneir pob ymdrech i sicrhau na fyddai staffio'r cyfleuster newydd yn creu bwlch mewn lleoliadau Iechyd neu ofal cymdeithasol eraill.

Cyn i'r drafodaeth ddod i ben, gofynnodd yr aelodau i swyddogion y Bwrdd Iechyd holi am bosibilrwydd sicrhau cyllid i gynhyrchu llyfryn hanesyddol am Ysbyty Brenhinol Alexandra, yn debyg i'r un a gyhoeddwyd yn ddiweddar am y cyn Ysbyty H M Stanley yn Llanelwy, oedd yn llwyddiant mawr.

Diolchodd y Pwyllgor i'r cynrychiolwyr am fynychu ac am ateb eu cwestiynau. Felly:

***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar y sylwadau uchod, derbyn y cyflwyniad, nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma a chefnogi'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ddarparu'r Ysbyty Cymuned a Chyfleuster Iechyd newydd i ardal gogledd Sir Ddinbych yn y Rhyl.*

Yn y fan hon, cytunwyd amrywio trefn y Rhaglen er mwyn Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus, y Cynghorydd David Smith, oedd yn gorfod gadael y cyfarfod i fynychu cyfarfod arall oedd wedi'i drefnu'n flaenorol.

## 6 PARTNERIAETH TELEDU CYLCH CAEËDIG

Cyflwynodd Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus, y Cynghorydd David Smith, yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw), yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r aelodau am y trefniadau llywodraethu sydd wedi'u sefydlu ar gyfer y bartneriaeth ac yn amlinellu ei effeithiolrwydd o ran darparu'r gwasanaeth teledu cylch caeedig ers ei ffurfio fis Ebrill 2016.

Yn ei gyflwyniad, amlinellodd y rhesymau y tu ôl i benderfyniad y Cyngor i dynnu'n ôl o ddarparu'r gwasanaeth anstatudol hwn. Pwysleisiodd y rôl yr oedd wedi'i chwarae o ran hwyluso sefydliad y bartneriaeth a chefnogi ei gwaith wrth ddarparu gwasanaeth a ystyriwyd yn un gwerthfawr gan drigolion a busnesau fel ei gilydd. Rhoddodd yr adroddiad fanylion graddau darpariaeth y gwasanaeth, gan gynnwys ystadegau ar y defnydd a wnaed o'r hyn a ffilmiwyd gan yr Heddlu i geisio trechu trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gyda 50% o'r ffilm a adferwyd yn cael ei ddefnyddio i sicrhau erlyniadau. Er i'r adborth a gafwyd hyd yma fod yn gadarnhaol, cafwyd cydnabyddiaeth hefyd bod gorddibyniaeth ar Sir Ddinbych fel Partner Arweiniol a chyflogwr y Cydlynydd Teledu Cylch Caeëdig. Roedd yr orddibyniaeth hon yn anghynaladwy yn y tymor hir. Felly gweithiwyd yn ddiweddar ar archwilio nifer o fodelau gwasanaeth posib, yn fodelau sector cyhoeddus a sector preifat, ac mae manylion y rhain i'w gweld yn yr adroddiad. Bydd y Bwrdd Partneriaeth Teledu

Cylch Caeëdig yn ystyried amrywiaeth o opsiynau posib ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn y dyfodol yn ei gyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr 2016.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau, nododd yr Aelod Arweiniol a Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd y canlynol:

- er bod y gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd yn wasanaeth gostyngol, gan nad yw'n cael ei fonitro ar sail 24 awr, roedd pob aelod yn ei ystyried yn wasanaeth gwerthfawr i'r tair tref yr oedd yn ei wasanaethu;
- roedd gwasanaeth Heddlu Gogledd Cymru, a gyfrannodd £16k tuag at y Gwasanaeth Teledu Cylch Caeëdig (sef ei gyfraniad safonol i bob awdurdod lleol am wasanaethau Teledu Cylch Caeëdig), o'r farn na fu cynnydd gweladwy yn nifer yr achosion o drosedd ac anrhefn yn yr ardal ers cyflwyno'r gwasanaeth 'gostyngol';
- gellid archwilio trefniadau cydweithio gyda busnesau preifat neu drefniadau refeniw posib gyda datblygwyr mawr sy'n ceisio ceisiadau cynllunio, er diben cyllido a chynnal gwasanaeth ar gyfer y dyfodol;
- pe gellid sicrhau ffrydiau cyllido, a chyda thechnolegau newydd yn dod i'r amlwg yn rheolaidd, gallai'r Bwrdd archwilio potensial cyflwyno'r gwasanaeth fesul cam i ardaloedd eraill y sir, e.e. Dinbych, Rhuthun, Llangollen;
- yn y dyfodol, gellid archwilio potensial cael system Teledu Cylch Caeëdig 'diwifr'. Mae'n debyg y byddai'r opsiwn hwn yn fwy cost effeithiol nag opsiwn Ffibr Optig, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig;
- roedd gan Heddlu Gogledd Cymru gamerâu Teledu Cylch Caeëdig symudol y gellid eu symud i ardaloedd gwledig i geisio trechu troseddau gwledig.

Ar ddiwedd y drafodaeth, bu i'r Pwyllgor:

***BENDERFYNU:***

(i) *yn amodol ar y sylwadau uchod, cefnogi rôl y Cyngor o fewn y bartneriaeth a chadw'r Bartneriaeth; ac*

(ii) *y dylid cyflwyno adroddiad o gynnydd i'r Pwyllgor, yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2017, ar y mesurau a gymerwyd i sicrhau dyfodol hirdymor y Gwasanaeth, gan gynnwys yr opsiynau posib o ran cyflwyno'r gwasanaeth Teledu Cylch Caeëdig fesul cam i ardaloedd eraill yn y sir.*

## 7 STRATEGAETH CEFNOGI ANNIBYNIAETH YN SIR DDINBYCH

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol (Gwasanaethau Plant ac Oedolion), y Cynghorydd Bobby Feeley, yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn rhoi manylion ymagwedd gorfforaethol y Cyngor tuag at alluogi trigolion y sir i gynnal eu hannibyniaeth a'u lles yn eu cartrefi eu hunain.

Roedd copïau o'r strategaeth ddrafft a'r Asesiad o'r Effaith ar Les (AEL) ar y Strategaeth ynghlwm wrth yr adroddiad er sylw'r aelodau. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol pam fod gofyn am ymagwedd gorfforaethol tuag at ddarparu'r strategaeth a gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Dyma ymateb Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a’r Rheolwr Gwasanaeth - Datblygu Strategol wrth ymateb i gwestiynau’r aelodau:

- eglurwyd amcan y prosiect ‘Pwyntiau Siarad’ a’i fanteision posib i ddefnyddwyr y gwasanaeth.
  Roedd hi’n dal yn ddyddiau cynnar ar y prosiect ar y pryd, ond wrth iddo ddatblygu ac ymsefydlu, rhagwelwyd mai’r sector gwirfoddol fyddai'n cymryd perchenogaeth o'r gwaith;
- Rhoddodd y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol gyfraniad ariannol i gynnal y prosiect hwn, er na wnaeth gomisiynu gwasanaethau yn uniongyrchol gan y sefydliad nac atgyfeirio unigolion yn uniongyrchol yno. Er hynny, gallai gweithwyr cymdeithasol unigol gyfeirio unigolion at y gwasanaethau oedd ar gael yno. Bu i Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ymweld â’r ganolfan y llynedd a chasglu bod y gwasanaethau a ddarparwyd yno yn cyd-fynd â’r dyletswyddau atal newydd a roddwyd ar awdurdodau lleol dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant;
- cadarnhawyd bod y Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad (UPM) yn cyflogi aelodau gyda sgiliau Cymraeg. Llenwyd pob swydd wag o fewn y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol yn unol â’r Polisi Recriwtio Corfforaethol, oedd yn gwneud darpariaeth ar gyfer swyddi yr ystyrir bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol neu’n ddymunol ar eu cyfer;
- eglurwyd mai rhan o’r gwaith gyda’r prosiect Cyfeirio Cymunedol oedd ceisio canfod, trwy gyrff sefydledig fel cynghorau cymuned, pa grwpiau neu sefydliadau oedd yn gweithredu o fewn eu cymunedau. Byddai hyn yn galluogi’r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol i gyfeirio unigolion at y grwpiau hynny ar gyfer gweithgareddau i wella eu hiechyd a’u lles, a lleihau’r perygl o arwahanrwydd ac unigrwydd;
- amlinellwyd rôl a chyfrifoldebau ‘Ymarferydd Gofal Cymdeithasol’ a sut y gallai ymarferydd helpu i ailalluogi unigolyn a gwella eu hunanhyder yn eu galluoedd eu hunain i ymgymryd â thasgau dydd i ddydd unwaith eto;
- pwysleisiwyd yr angen i symud oddi wrth sefyllfa sy’n dibynnu ar fudd-daliadau tuag at sefyllfa sy’n galluogi pobl drwy fagu eu hyder a mynd i'r afael ag arwahanrwydd ac unigrwydd;
- cadarnhawyd bod y ddogfen Strategaeth yn ddogfen i swyddogion mewnol yn bennaf; bydd dogfen fwy cryno, haws ei darllen yn cael ei chynhyrchu er gwybodaeth i’r trigolion maes o law;
- eglurwyd y pedwar amod y mae’n rhaid i unigolyn eu cyflawni i fod yn gymwys i gael y gofal a’r gefnogaeth i gyflawni deilliannau personol, a’r broses ar gyfer asesu’r amodau. Eglurwyd bod Proses Apêl i unigolion oedd yn anghytuno â’u hasesiad, ac y defnyddir asesydd gwahanol i ymgymryd â’r broses honno; a
- hysbyswyd y Pwyllgor bod rhaid ystyried gallu defnyddwyr gwasanaeth (gan gynnwys eu gallu ariannol) i gyflawni eu deilliannau gofal cymdeithasol pan oeddent yn gwneud cais am y gwasanaethau. Fodd bynnag, roedd LlC wedi capio’r gyfradd y gallai awdurdodau lleol ei godi am ofal a chefnogaeth a reolir ar £60 yr wythnos. Cynhwyswyd budd-daliadau megis Lwfans Gweini (LG) a Lwfans Byw i’r Anabl (LBA) fel adnoddau ar gael i’r unigolyn i gyflawni eu deilliannau, gan y telir y budd-daliadau hynny er mwyn eu helpu i wella eu lles.

O ran y Strategaeth ddrafft a'r daflen ddrafft 'Sut ydw i'n cael gafael ar Ofal a Chefnogaeth yng Ngogledd Cymru?', gofynnodd yr aelodau i'r diwygiadau canlynol gael eu hystyried:

- tudalen 27 y strategaeth ddrafft (tudalen 65 y pecyn rhaglen) – dylid disodli'r term ''Volunteer Kinetic Sir Ddinbych' gyda therm sy'n esbonio'r gwasanaeth/sefydliad yn well;
- tudalen 31 y strategaeth ddrafft (tudalen 69 y pecyn rhaglen) - dylid newid cyfeiriadau at Bodelwyddan a Llanelwy i adlewyrchu'r sir gyfan, neu dylid cyflwyno'r mentrau fesul cam i'r sir gyfan, gan mai strategaeth sirol oedd hi. Fe hysbysodd y swyddogion y byddai'r gwaith hwn yn cael ei ymestyn i ardaloedd eraill y sir yn y flwyddyn sydd i ddod;
- clawr blaen y daflen (tudalen 75 y pecyn rhaglen) – dylai'r frawddeg ar waelod y dudalen ddarllen "Mae gwybodaeth ar gael mewn ieithoedd eraill... ar gais", yn hytrach na "Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd eraill...ar gais";

Ar ddiwedd y drafodaeth, bu i'r Pwyllgor:

***BENDERFYNU:***

*(i) yn amodol ar y sylwadau uchod ac ystyriaeth o'r diwygiadau a awgrymir, cefnogi'r Strategaeth; a*

*(ii) cefnogi'r dull corfforaethol o ddiwallu anghenion dinasyddion y gallai fod angen cymorth arnynt, gan atal yr angen am ymyrraeth statudol yn eu bywydau.*

**8 CYNLLUN COMISIYNU LLEOL – CEFNOGI POBL SIR DDINBYCH 2017-18**

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol (Gwasanaethau Plant ac Oedolion), y Cynghorydd Bobby Feeley, yr adroddiad a Chynllun Comisiynu Lleol drafft 2017-18, ynghyd â'r AEL (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

Hysbysodd yr Aelod Arweiniol bod y Grant Cefnogi Pobl (CP), a glustnodwyd gan LlC ar gyfer darparu gwasanaethau CP, wedi gweld toriadau yn y blynyddoedd diwethaf. Llwyddodd yr arian grant CP i gyflawni nifer o ofynion Deddf Tai (Cymru) 2014, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Hysbyswyd y Pwyllgor bod y mynegiannau diweddaraf gan LlC yn awgrymu bod y Grant CP ar gyfer 2017-18 wedi'i warchod rhag toriadau pellach. Fodd bynnag, ar ôl llunio'r Cynllun drafft, rhagwelwyd toriad o 5% o leiaf ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, felly mae tudalennau 19 i 31 y Cynllun drafft yn amlinellu datblygiadau arfaethedig i'r gwasanaeth a chynigion i ddatgomisiynu ac ailfodelu ar sail y toriadau a ragwelir. Pe bai'r grant yn cael ei gynnal ar ei lefel bresennol, ni fyddai angen gweithredu'r cynigion datgomisiynu/ailfodelu hyn oni fyddai hynny er budd defnyddwyr y gwasanaeth.

Wrth ymateb i gwestiynau'r aelodau, hysbysodd yr Aelod Arweiniol, Pennaeth y Gwasanaeth a Rheolwr Tîm Cefnogi Pobl:

- bod y term 'darpariaeth wlyb' yn cyfeirio at amgylchedd diogel i unigolion sy'n ddifrifol ddibynnol ar gyffuriau neu alcohol 'gymryd' eu sylwedd

caethiwus hyd at lefel goddefiant a reolir. Ar hyn o bryd, nid yw gwasanaethau’r awdurdod lleol yn gymwys i ddelio ag unigolion sy’n dioddef o ddibyniaeth ddifrifol;

- bod y Grant CP yn grant ‘annibynnol’ ar wahân, wedi'i glustnodi ar gyfer gwasanaethau CP; nid yw’n rhan o Grant Cynnal Refeniw (GCR) y Cyngor ac felly nid oedd gan y Cyngor unrhyw reolaeth dros doriadau i’r grant gan lywodraeth ganolog.
  Yr unig beth y gallai’r Cyngor ei wneud oedd rheoli effaith y toriadau hynny ar y gwasanaethau CP;
- bod y cynigion datblygu gwasanaeth, datgomisiynu ac ailfodelu arfaethedig yng Nghynllun Comisiynu Lleol CP yno fel mesurau wrth gefn yn barod am doriad o tua 5% i’r grant ar gyfer 2017-18. Os na newidir y dyraniad grant, ni fyddai angen gweithredu’r newidiadau, ond byddai gwelliannau cost negyddol i’r gwasanaeth yn cael eu hystyried, yn naturiol;
- bod y broses ar gyfer darparu ac archwilio grantiau i ddarparwyr y sector gwirfoddol (trydydd sector) yn hynod drylwyr a chadarn; ac
- nad oedd unrhyw dystiolaeth i Sir Ddinbych ddioddef er gwaeth o fwy o unigolion yr ystyriwyd nad oedd ganddynt “... unrhyw gysylltiad lleol...” yn cyflwyno eu hangen am gymorth CP nag ardaloedd eraill.  Mae gan yr awdurdod broses archwilio well bellach, a gofynnwyd y cwestiwn am gysylltiad lleol i bob unigolyn oedd yn cysylltu â’r Cyngor am gymorth.

Gofynnodd aelodau’r Pwyllgor:

- am restr o ddarparwyr trydydd sector sy’n darparu gwasanaethau CP yn Sir Ddinbych; ac
- am graff a’r niferoedd perthnasol ym mhob categori i gyd-fynd â'r graffigyn eglurhaol sy’n ymwneud â ‘Phroblem Gudd Digartrefedd’ ar dudalennau 8 a 9 y cynllun comisiynu drafft (tudalennau 104 a 105 y pecyn rhaglen);

Ar ddiwedd trafodaeth drylwyr, bu i’r Pwyllgor:

***BENDERFYNU:***

*(i) Rhoi gwybod i’r Cabinet am farn y pwyllgor Archwilio ei fod, ar ôl adolygu Cynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl 2017-18, yn dymuno nodi ei bryderon bod y Grant Cefnogi Pobl wedi gweld toriadau flwyddyn ar ôl blwyddyn gan Lywodraeth Cymru ers nifer o flynyddoedd; ac*

*(ii) er y cydnabyddir y gwnaed cynlluniau wrth gefn o fewn Cynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl 2107-18 i ddarparu ar gyfer toriadau pellach, pe bai arian y grant Cefnogi Pobl yn aros ar y lefel bresennol, y bydd y cyllid yn aros o fewn y gwasanaethau Cefnogi Pobl er mwyn cynnal y gwasanaethau a ddarperir.*

## 9 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd copi o dempled 'ffurflen cynnig Aelodau" wedi'i gynnwys yn Atodiad 2, roedd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet wedi'i gynnwys fel Atodiad 3, ac roedd tabl yn crynhoi datrysiadau diweddar y Pwyllgor ac yn cynghori am gynnydd wrth eu gweithredu wedi'i atodi yn Atodiad 4.

Ystyriodd y Pwyllgor ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol drafft ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol.

<u>19 Ionawr 2017</u>

Ni fydd yr ymweliad i Swyddfeydd Cymunedau'n Gyntaf yn Marsh Road, y Rhyl yn cael ei gynnal mwyach.
Cytunwyd i wahodd yr Aelodau Arweiniol.

<u>2 Mawrth 2017</u>

Cynnwys diweddariad am y gwasanaeth Teledu Cylch Caeëdig ar y rhaglen waith.

<u>6 Ebrill 2017</u>

Gwneud ymholiadau ynglŷn â'r posibilrwydd o ddarparu diweddariad gyda BIPBC ar y cynnydd gydag ymchwiliad Tawelfan.

***PENDERFYNWYD****, yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol uchod.*

**10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Dim adborth

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.15pm**